


Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Bay Health and Beauty Clinic, Bae
Colwyn

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 01 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-740-3

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	15
4. Y camau nesaf.....	16
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	18
Atodiad C – Cynllun gwella	19



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Bay Health and Beauty Clinic, Bae Colwyn ar 31 Mawrth 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u iaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod The Bay Health and Beauty Clinic yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd gan y clinig drefniadau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y cleifion drwy sawl sianel, gan gynnwys opsiynau diennw. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r adborth hwn, gan gynnwys crynodeb a dadansoddiad o safbwyntiau'r cleifion, yn cael eu cynnwys yn y Canllaw i Gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion yn y Canllaw i Gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwranddo ar y cleifion
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer cael gwybod safbwyntiau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod The Bay Health and Beauty Clinic yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i'r holl staff adnewyddu eu hyfforddiant tân a diogelu.

Roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw restrau gwirio glanhau yn cael eu cadw ar gyfer yr ystafell drin er mwyn dangos bod amserlenni glanhau yn cael eu dilyn.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen o archwiliadau clinigol rheolaidd ar waith i gefnogi prosesau sicrhau ansawdd a gwelliannau parhaus.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Pob aelod o'r staff i adnewyddu eu hyfforddiant tân
- Rhoi rhestr wirio ar waith ar gyfer glanhau'r ystafell drin
- Pob aelod o'r staff i adnewyddu eu hyfforddiant diogelu
- Angen adolygu'r polisi diogelu
- Rhoi rhaglen o archwiliadau clinigol ar waith

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafell drin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon dda
- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd The Bay Health and Beauty Clinic fod ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ar y cyfan. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli gan reolwr cofrestredig ymrwymedig, ac roedd dogfennau cofrestru ac yswiriant priodol ar waith.

Nid oedd unrhyw ddiwyddiadau a chwynion wedi cael eu cofnodi ar adeg yr arolygiad, ac roedd systemau priodol ar waith i reoli pryderon. Roedd yr arferion recriwtio yn helpu i gadw'r cleifion yn ddiogel, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, ac roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol; fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau i gryfhau systemau i fonitro pryd mae angen adnewyddu hyfforddiant a monitro cydymffurfiaeth barhaus.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno system i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod defnyddwyr awdurdodedig y peiriannau laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o 16 o ymatebion.

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion (15/16) a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn a nododd un claf ei fod yn dda. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff hynod o broffesiynol a chyfeillgar.”

“Lleoliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth gwych o'r dechrau i'r diwedd. Rwyf bob amser yn teimlo'n hollol gyfforddus yn ystod fy ymweliad ac mae'r tîm yn eithriadol o wybodus ac yn darparu gwasanaeth gwych i gwsmeriaid.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol cynhwysfawr cyn cael eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn cael unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod yr hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf ac yn cael eu cydlofnodi gan weithredwr y laser. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gofyn am eu hanesion meddygol cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Dywedodd un claf wrthym:

“Gwasanaeth proffesiynol a chyfeillgar. Cefais esboniad llawn cyn dechrau triniaeth. Maen nhw'n gwirio fy hanes meddygol cyn pob sesiwn laser. Maen nhw'n ymgynghori â fi ar bob penderfyniad sy'n ymwneud â fy nhriniaeth.”

Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch pan wnaethant ymweld â'r clinig.

Roedd modd cloi drws yr ystafell drin, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd y cleifion yn cael tywelion er mwyn diogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn iddynt ddadwisgo os oedd angen.

Roedd ymgynghoriadau yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Clywsom fod hawl gan y cleifion i ddefnyddio hebryngwr ar gais yn ystod y broses ymgynghori. Fodd bynnag, clywsom nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant hebrwng penodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw aelod o'r staff sy'n cyflawni rôl yr hebryngwr yn cael hyfforddiant priodol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod yn gwrandao arnynt ac yn ateb unrhyw gwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol a ffurflen gydsynio a'u bod wedi cael prawf croen cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol. Dywedodd un claf wrthym:

“Roedd (yr aelod o staff) yn broffesiynol ac yn dda iawn. Mae bob amser yn esbonio pob triniaeth yn fanwl ac yn gwneud yn siŵr fy mod yn deall. Roedd y driniaeth wedi gweithio'n effeithlon ac mae hyn wedi gwneud i mi deimlo'n fwy hyderus ynof fi fy hun. Roedd (yr aelod o staff) wedi rhoi gwybod am yr holl opsiynau gwaredu blew sydd ar gael ar ôl rhoi cynnig ar electrolysis ac wedi fy nhywys at y llwybr cywir.”

Gwelsom fod y staff yn gofyn i'r cleifion gwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth, cyn cael prawf croen. Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am eu hanes meddygol yn ystod pob apwyntiad dilynol hefyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ei darllen i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau o ran triniaethau ac er mwyn iddynt gael manylion am y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom. Roedd pob claf yn

cytuno bod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwranddo arnynt.

Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym fod dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, roedd hanesion meddygol y cleifion yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod y driniaeth a ddewiswyd ganddynt yn addas.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol ac roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth o gofnodion o safon dda, a oedd yn ymdrin â phob rhan o daith y claf, cyn ac ar ôl y driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y clinig yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth cleifion, er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth ar ddiwedd pob cwrs o driniaeth drwy holiadur ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Gellid cyflwyno adborth a sylwadau yn ddiennw hefyd.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd crynodeb o safbwyntiau'r cleifion na'r dadansoddiad o adborth y cleifion wedi cael eu cynnwys yn y Canllaw i Gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod crynodeb o safbwyntiau'r cleifion yn cael ei gynnwys yn y Canllaw i Gleifion ac anfon copi at AGIC.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i'r cleifion, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn y pum mlynedd diwethaf.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd yr allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis. Fodd bynnag, gwelsom fod angen i'r staff i gyd adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff i gyd yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ar y safle. Ar adeg yr arolygiad, roedd y tri gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân yr olwg. Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys amserlen lanhau ddyddiol ar gyfer yr ystafell drin, a oedd yn cynnwys

glanhau'r peiriant laser, y gwely trin, y cyfarpar a sbectolau cyn eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cadw i ddangos bod y tasgau glanhau hyn wedi cael eu cwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cadw ar gyfer yr ystafell drin i ddangos bod amserlenni glanhau yn cael eu dilyn.

Gwelsom fod pob gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant lefel 2 ar atal a rheoli heintiau.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaredu a chasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu.

Gwelsom fod angen i'r tri gweithredwr laser adnewyddu eu hyfforddiant diogelu lefel dau. Cawsom gadarnhad yn syth ar ôl yr arolygiad bod y tri gweithredwr laser wedi cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs perthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob gweithredwr laser yn adnewyddu ei hyfforddiant diogelu lefel 2 ac anfon y tystysgrifau perthnasol at AGIC.

Roedd polisi ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu'r polisi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu'n cael ei adolygu a rhoi copi i AGIC.

Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, ynghyd â siartiau llif a manylion cyswllt a oedd yn rhestru'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a calibradu flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau trin ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd bod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond ag allwedd y gellir ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei rhoi ar waith yn flynyddol er mwyn cefnogi prosesau sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei rhoi ar waith yn flynyddol.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Hefyd, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl triniaethau a chyswllt dilynol â chleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn gwell drwy gydol cwrs o driniaeth.

Rheoli cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion da yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol, nifer y dosau a manylion unrhyw effeithiau andwyol. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn ffordd drefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar The Bay Health and Beauty Clinic ac yn rhedeg y clinig, a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rôl.

Gwelsom dystysgrif gofrestru gyfredol gan AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyfredol yn cael eu harddangos.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu ddyddiadau adolygu.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt.

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y clinig system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom gadarnhau bod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu i amddiffyn a diogelu'r cleifion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod digon o staff wedi cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y clinig ac i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion.

Gwelsom fod pob gweithredwr laser yn cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth ynghyd â hyfforddiant ar beiriannau penodol. Fodd bynnag, gan inni weld bod angen adnewyddu rhywfaint o hyfforddiant yn ystod yr arolygiad, gwnaethom argymhell y dylid rhoi systemau mwy cadarn ar waith i sicrhau bod gofynion hyfforddiant a chydymffurfiaeth perthnasol yn cael eu monitro'n fwy effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i sicrhau bod gofynion hyfforddiant a chydymffurfiaeth yn cael eu monitro a'u diweddarau'n effeithiol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Bay Health & Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.				
Canfyddiadau:					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Bay Health & Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwelsom nad oedd y staff wedi cael hyfforddiant hebrwng penodol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw aelod o'r staff sy'n cyflawni rôl yr hebryngwr yn cael hyfforddiant priodol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 18.	Bydd un aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn fel y trafodwyd â'r arolygydd. Yna bydd yr aelod o'r staff yn rhannu'r hyn a ddysgodd â gweddill y tîm. Gallwn anfon prawf pan fyddwn wedi trefnu'r hyfforddiant hwn, os bydd angen	Catherine Green	Mai 2026
2. Gwelsom nad oedd crynodeb o safbwyntiau ac adborth y cleifion wedi cael ei gynnwys yn y Canllaw i Gleifion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod crynodeb o safbwyntiau'r cleifion yn cael ei gynnwys yn y Canllaw i Gleifion ac anfon copi at AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 7.	Roedd hwn wedi ei gynnwys eisoes yn y canllaw a chaiff ei anfon draw unwaith eto. Mae'n ymdrin ag adborth a holiaduron o'r cyfnod 2024-2026	Catherine Green	Mai 2026

3.	Gwelsom fod angen i'r staff i gyd adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff i gyd yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 20.	Bydd yn ofynnol i'r staff i gyd gwblhau'r hyfforddiant erbyn mis Gorffennaf 2026 fan hwyraf	Catherine Green	Gorffennaf 2026
4.	Gwelsom nad oedd rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cadw i ddangos bod amserlenni glanhau yn cael eu dilyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestr wirio glanhau yn cael ei chadw ar gyfer yr ystafell drin.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 15.	Mae rhestr wirio newydd ar gyfer yr ystafell drin wedi cael ei chyflwyno i'w chwblhau bob wythnos – copi i ddilyn. Cadw copïau am o leiaf ddwy flynedd	Catherine Green	Mai 2026
5.	Gwelsom fod angen i'r staff i gyd adnewyddu eu hyfforddiant diogelu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff i gyd yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 16, 20 a 21.	Mae'r staff i gyd wedi diweddarau eu hyfforddiant diogelu erbyn hyn – tystysgrifau i ddilyn	Catherine Green	Mai 2026
6.	Gwelsom fod angen adnewyddu'r polisi diogelu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei adnewyddu a rhoi copi i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 16.	Mae'r polisi bellach wedi cael ei ddiweddarau – copi i ddilyn	Catherine Green	Mai 2026

7.	Gwelsom nad oedd rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei chynnal.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen o archwiliadau clinigol yn cael ei rhoi ar waith yn flynyddol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 19.	Yn flynyddol yn dechrau o fis Mai 2026, gyda'r archwiliad blynyddol cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Mai 2027 – caiff 20 o gardiau cofnod laser eu gwirio ar hap i sicrhau bod gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn a'u cofnodi'n gywir. Caiff hyn ei ddogfennu fel crynodeb ysgrifenedig ac wedyn ei ffeilio.	Catherine Green	Mai 2027
----	--	---	--	---	-----------------	----------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: MRS C. Green

Enw (priflythrennau): Catherine Green

Swydd: Perchennog / Cyfarwyddwr y Clinig

Dyddiad: 29/05/2026